Senedd Cymru | Welsh Parliament
**Ymchwil y Senedd | Senedd Research**

# Ysgol Gymraeg Llundain

Y Pwyllgor Deisebau | 26 Ionawr 2026
Petitions Committee | 26 January 2026

**Cyfeirnod:** SR25/12887-6

**Rhif y ddeiseb**: P-06-1542

**Teitl y ddeiseb:**: Ymrwymo i gefnogi dyfodol Ysgol Gymraeg Llundain

**Geiriad y ddeiseb:** Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei bod am dynnu ei grant blynyddol o £90,000 yn ôl o fis Mawrth 2026. Heb y grant hwn, bydd yr ysgol yn cau gan chwalu'r modd mwyaf effeithiol o hyrwyddo'r iaith Gymraeg yn Llundain.

**Rhagor o wybodaeth** Daw'r grant hwn o strategaeth 'Cymraeg 2050', sy'n anelu at gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud y bydd y £90,000 hwn yn dal i gael ei ddefnyddio i hyrwyddo'r iaith yn Llundain, ond nid yw wedi rhoi manylion ynghylch sut yn union y bydd yn gwneud hynny. Mae'n amlwg mai'r ffordd orau o hyrwyddo unrhyw iaith yw addysgu'r genhedlaeth nesaf o siaradwyr rhugl. Mae'r ysgol yn dod dros effeithiau COVID ac yn tyfu mewn nifer. Nawr yw'r amser i fuddsoddi yn nyfodol yr ysgol, nid i dorri'r cyllid yn ôl.

## 1. Cefndir

Mae Ysgol Gymraeg Llundain yn **ysgol annibynnol i blant meithrin a phlant oed ysgol gynradd**, wedi'i lleoli yn Hanwell ym mwrdeistref Ealing, **Gorllewin Llundain**. Mae'r ysgol yn addysgu drwy **gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg**, gyda'r nod bod disgyblion yn gwbl ddwyieithog erbyn blwyddyn 6.

Er ei bod yn ysgol annibynnol ac felly nid oes rhaid iddi wneud hynny, mae Ysgol Gymraeg Llundain **yn cynnig y Cwricwlwm i Gymru**, gan gynnwys y pedwar diben a'r chwe maes dysgu a phrofiad, fel y'u dogfennwyd ar ei gwefan.

Ar wefan Ysgol Gymraeg Llundain mae cyfres o gwestiynau cyffredin, sy'n cynnwys gofyn i ba ysgol y bydd disgyblion yn mynd ar ôl Blwyddyn 6. Yr ateb a roddir yw: "Mae rhai o'n disgyblion yn symud ymlaen i ysgolion uwchradd lleol yn Llundain; mae teuluoedd eraill yn symud yn ôl i Gymru lle gall y disgyblion barhau gydag addysg Gymraeg."

Mae'r ddeiseb hon wedi'i chyflwyno gan gadeirydd corff llywodraethu'r ysgol.

### 1.1. Model ariannol Ysgol Gymraeg Llundain

Mae Ysgol Gymraeg Llundain yn **ysgol sy'n codi ffioedd. Y gost yw £4,374 y flwyddyn neu £364.50 y mis** (o 2024/25) ar gyfer plant 5 oed a hŷn.[1]

Mae'r ysgol yn dweud ei bod yn derbyn pob plentyn waeth beth fo gallu'r teulu i dalu'r ffioedd llawn a bod ganddi "gronfa fechan i helpu gyda hyn".

Mae'r ddeiseb yn nodi bod **Llywodraeth Cymru yn darparu £90,000 y flwyddyn i Ysgol Gymraeg Llundain** o gyllideb Cymraeg 2050. Mewn ateb i gwestiwn ysgrifenedig (WSQ96921) ym mis Gorffennaf 2025 dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg fod **Ysgol Gymraeg Llundain wedi cael grant blynyddol o £90,000 y flwyddyn gan Lywodraeth Cymru er 2015**. Yn 2022-23, cafodd daliad untro ychwanegol oedd yn gyfystyr â 4% o'i grant blynyddol, sef cyfanswm o £3,600.

Dywedodd y Prif Weinidog wrth y Senedd ym mis Gorffennaf 2025 (paragraff 2) fod Llywodraeth Cymru wedi darparu mwy nag £1.2 miliwn o gyllid grant i Ysgol Gymraeg Llundain dros y degawd diwethaf.

# 2. Safbwynt Llywodraeth Cymru

Mae llythyr yr Ysgrifennydd Cabinet (dyddiedig 18 Rhagfyr 2025) yn dweud bod Llywodraeth Cymru wedi bod **yn ystyried "y ffaith bod niferoedd y disgyblion wedi gostwng" a'i bod yn edrych ar y "dulliau mwyaf effeithlon o gefnogi'r Gymraeg yn Llundain".** Mae'n dweud bod hyn yn "rhan o'n prosesau gwerthuso a monitro

[1] I blant dan 5 oed, gall grant addysg feithrin yn Lloegr dalu am 15 awr o ddarpariaeth yr wythnos o'r tymor ar ôl trydydd pen-blwydd y plentyn. Gall teuluoedd yn Lloegr fod â hawl i gael hyd at 30 awr o ofal plant / addysg feithrin am ddim yn yr ysgol o oedran cynharach o dan y cynllun gofal plant am ddim i rieni sy'n gweithio.

grantiau". Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet (25 Mehefin – paragraff 34) a'r Prif Weinidog (1 Gorffennaf – paragraff 5) wrth y Senedd yn haf 2025 mai **dim ond tua 10 o ddisgyblion oedd ar gofrestr Ysgol Gymraeg Llundain**.

Cytunodd Llywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2025 i ddarparu **cyllid tan ddiwedd blwyddyn academaidd 2025/26** ac ers hynny, **gwahoddwyd yr ysgol i wneud cais am gyllid am dair blynedd arall**. Mae llythyr yr Ysgrifennydd Cabinet yn dweud bod hyn i'w ystyried "yn y flwyddyn newydd".

### 2.1. Polisïau ynghylch addysg Gymraeg

Mae Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 yn ei gwneud yn ofynnol bod Strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru yn cynnwys targed o gyrraedd o leiaf miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Rhaid i'r strategaeth hefyd osod targedau ar gyfer cynyddu nifer y disgyblion sy'n mynychu ysgolion categori 'Prif Iaith - Cymraeg', ac ar gyfer cynyddu'r addysg Gymraeg a ddarperir mewn ysgolion categori "Dwy Iaith" a chategori "Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg".

Gosodwyd Cymraeg 2050, sef y targed statudol presennol sydd gan Lywodraeth Cymru (a osodwyd yn 2017) gan Ddeddf 2025. Mae'r darpariaethau yn Neddf 2025 sy'n ymwneud ag ysgolion yn gymwys i ysgolion a gynhelir yng Nghymru yn unig. Mae'r briff hwn yn crybwyll y dylid rhoi awgrym o bolisïau Llywodraeth Cymru ynghylch y Gymraeg, yn hytrach na'u bod yn uniongyrchol berthnasol i'r ddeiseb hon.

## 3. Camau gweithredu Senedd Cymru

Fel y trafodwyd uchod, bu cwestiynau llafar yn y Senedd ar y pwnc hwn:

- i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg ar 25 Mehefin 2025 (paragraffau 29-37); ac
- i'r Prif Weinidog ar 1 Gorffennaf 2025 (paragraffau 1-9).

## 4. Sylw yn y cyfryngau

Bu rhywfaint o sylw yn y cyfryngau ar y pwnc hwn, gan gynnwys erthyglau gan y BBC ar 19 Mehefin, 1 Gorffennaf a 13 Tachwedd 2025.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio

hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.